

Cofnodion cyfarfod y Grŵp Ecosystem Trefol a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2014

Drwy gynhadledd fideo rhwng swyddfeydd CNC ym Mangor (Maes y Ffynnon) a Chaerdydd (Llaneirwg).

Yn bresennol

Nigel Ajax-Lewis, Amanda Davies, Pete Frost (cadeirydd), Liz Howe, Jan Sherry

Eitem	Teitl	Nodiadau
1	Cyflwyniadau a Chroeso	Cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn dod i ben am 12:30 gan fod yn rhaid i dri aelod o'r grŵp adael yn gynnar i fynd i gyfarfodydd eraill.
2	Ymddiheuriadau a chyflwyniadau ar gyfer UFA	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Dave Thorpe, Clare Dinham, Rebecca Sharp. Nid oedd unrhyw fusnes arall
3	Cofnodion y cyfarfod diwethaf	Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.
4	Cynllun gwaith, tymor byr a hir	<p>Cytunwyd i ychwanegu eitemau sefydlog at y cynllun gwaith tymor hir Cam Gweithredu 1: PF</p> <p>Cytunwyd i ychwanegu mapio fel eitem agenda sefydlog: Cam Gweithredu 2: PF (cwblhawyd 9/1/14)</p> <p>Nodwyd nad oedd y map o OMHoPDL yng Nghymru a gynhrychwyd fel rhan o gytundeb ymchwil DEFRA mae'n debyg yn cynnwys yr holl safleoedd cymwys. Cytunwyd i fynd at ecolegwyr llywodraeth leol (ALGE) i ofyn am ddata ffiniau digidol (neu o leiaf enwau safleoedd) ar gyfer: a) safleoedd OMHoPDL nad oeddynt wedi eu cynnwys yn y data DEFRA; b) Y safleoedd OMHoPDL gorau ar gyfer bioamrywiaeth; ac c) safleoedd ar restr DEFRA sydd ers hynny wedi cael eu colli Cam Gweithredu 3: AD i ofyn bod data yn cael ei anfon i Jonathan Rothwell yn CNC.</p> <p>Bydd CNC wedyn yn cyfuno'r data i roi map mwy cyflawn o OMHoPDL yng Nghymru Cam Gweithredu 4: JS</p> <p>Cydnabuwyd y byddai hon yn broses ailadroddol ac yn gofyn am sylw parhaus i gadw'r set ddata yn gyfredol.</p> <p>Nodwyd y gall bod gan yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt ddata ar safleoedd nad oedd yn ymddangos yn set ddata DEFRA a chytunwyd i ofyn iddynt am y data hwnnw Cam Gweithredu 5: AD</p> <p>Cytunwyd hefyd i ofyn i Cofnod am ddata ar safleoedd y gellid bod wedi eu methu Cam Gweithredu 6: JS</p> <p>Nodwyd y gallai bod gan Buglife wybodaeth, darluniau neu destun y gellid eu defnyddio yn y daflen a'r cyflwyniad OMHoPDL arfaethedig ar gyfer Cymru. Cytunwyd ceisio cysylltu â hwy i weld a ellid defnyddio unrhyw rai o'r rhain yng Nghymru Cam Gweithredu 7: PF</p> <p>Cytunwyd y byddai Rhian Thomas (CNC) yn cael ei diweddarau ynglŷn ag ymdrech y grŵp i greu 'blwch offer' asesu gwasanaeth ecosystemau Cam Gweithredu 8: PF Cam Gweithredu 8: PF</p>

5	OMHoPDL	Roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried fel rhan o eitem 4.
6	Cronfa Ecosystemau Gwydn (CEG) a Chronfa Natur Llywodraeth Cymru	<p>Cafodd pum cais ar gyfer prosiectau trefol eu cyflwyno i CEG a chafodd dau eu hargymhell i'r panel asesu ar gyfer eu cyllido. Cafodd y ddau hyn eu derbyn gan y panel.</p> <p>Gwnaeth Groundwork Merthyr Rhondda Cynon Taff gais am gyllid i gynnal gwelliannau amgylcheddol i Lwybr Trevithick. Fodd bynnag aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr cyn cyhoeddi'r cynnig. Erbyn hyn, mae CEG yn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful ac yn gallu cyhoeddi cynnig iddynt ar gyfer arwain y gwaith o fewn y prosiect gyda Cadw Cymru'n Daclus yn cynorthwyo'r gwaith gweithredu. Mae hyn yn bosibl gan fod y prosiect yn wreiddiol wedi ei gyflwyno ar ran y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ei cyd-gysylltu. Miki Miyata-Lee (CNC) yw Swyddog Prosiect CEG.</p> <p>Llwyddodd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru i sicrhau cymorth ar gyfer prosiect i ddatblygu Prosiect 'Tirweddau Byw' yn Ystâd Ddiwydiannol Wrecsam a fydd yn gweithio gyda busnesau ar y safle a'r Awdurdod Lleol. Euros Jones (CNC) yw Swyddog Prosiect CEG ac mae cynnig o grant i fod i gael ei gyhoeddi yn fuan.</p> <p>Nodwyd bod cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori wedi cael eu cynnal ar gyfer Cronfa Natur Llywodraeth Cymru gwerth £6m a bod cyflwyniadau ar gyfer prosiectau wedi cael eu ceisio yn ysgrifenedig ymlaen llaw. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu cyfres o syniadau am brosiectau y bydd partneriaid gweithredu yn cael eu ceisio ar eu cyfer. Ni ragwelir y bydd arian yn dechrau cael ei wario hyd ddechrau blwyddyn ariannol 2014/15.</p>
7	Adroddiadau gan aelodau	<p>Dywedodd Buglife eu bod wedi cyflwyno papur 'Brownfield Stepping Stones for Wales' a 'Making a B-Line for Wales' mewn perthynas â Chronfa Natur Cymru (gweler eitem 6 uchod, papurau ar gael gan PF ar gais).</p> <p>Nododd Buglife eu bod wedi cael cyllid hefyd gan y Co-Op i gynnal prosiect B-Line 18 mis yn Ne Cymru sydd i fod i gychwyn ym mis Ebrill. Maent yn gobeithio cael swyddog rhan amser erbyn hynny ond mae hyn yn dal i fod angen ei gadarnhau.</p> <p>O ganlyniad i gyfyngiadau amser ni ellid gwneud adroddiadau llafar yn llawn yn y cyfarfod gan bartneriaid eraill a gofynnir i'r holl aelodau anfon adroddiad byr (un ochr A4 ar y mwyaf) ar weithgareddau perthnasol i'r cadeirydd o fewn 2 wythnos ar ôl derbyn y cofnodion hyn. Cam Gweithredu 9: Pawb</p>
8	Anghenion ymchwil a bylchau tystiolaeth (eitem sefydlog)	Ystyriwyd yr eitem hon fel rhan o eitem 4 uchod.
9	Polisiâu	Fel rhan o'i drafodaethau ynghylch y cynllun gwaith 3 blynedd rhaglennodd y grŵp seminar i glustnodi pa ddeddfwriaeth a pholisiâu oedd angen eu diwygio neu eu creu i gefnogi ei amcanion

10	Gwirio camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf	Oherwydd cyfyngiadau amser cafodd yr eitem hon ei chario ymlaen i'r cyfarfod nesaf
11	Adolygu aelodaeth	Cam Gweithredu 10: Pawb i hysbysu'r cadeirydd am awgrymiadau ar gyfer aelodau newydd pan fyddant yn derbyn y nodiadau hyn
13	Cadarnhau camau gweithredu o'r cyfarfod hwn	Yr unig bwynt allweddol i'w nodi o'r cyfarfod hwn yw bod y Grŵp Ecosystem Trefol wedi paratoi cynllun gwaith drafft ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r grŵp yn croesawu sylwadau ar, a chynigion am gymorth i weithredu'r cynllun hwn.
14	Lleoliad a Dyddiad y cyfarfod nesaf	Gofynnir i aelodau am ddyddiadau ar gyfer y cyfarfod nesaf gan ddefnyddio Meet-o-Matic neu wasanaeth rhynggrwyd cyffelyb. Cam Gweithredu 11: PF